# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD GWENER, 6ED MEDI, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

***I ymuno â'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Iau, 29 Awst 2024)

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (3)

Y Cynghorwyr

Gareth Tudor Jones

Gwynfor Owen (Cadeirydd)

Arwyn Herald Roberts

Angela Russell (Eilydd)

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. CAIS I AMRYWIO TRWYDDED EIDDO 5 - 7

Gwesty Dolbadarn, Stryd Fawr, Llanberis, Gwynedd LL55 4SU

I ystyried y cais

## 5. CAIS AM DRWYDDED EIDDO 8 - 12

Becws Melyn, 41 B Stryd Fawr, Llanberis LL55 4EU

I ystyried y cais

**TREFN MEWN GWRANDAWIADAU TRWYDDEDU**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.
2. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
4. Gall yr ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion
5. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
6. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
7. Gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
8. Gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

**Atgoffir oll o'r pedwar egwyddor i'w hystyried wrth benderfynu ar y ceisiadau, sef:**

1) **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2) **Diogelwch y Cyhoedd;**
3) **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4) **Amddiffyn plant rhag niwed:**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **06/09/2024** |
| **TEITL:** | **CAIS I AMRYWIO TRWYDDED EIDDO - DOLBADARN, STRYD FAWR, LLANBERIS, GWYNEDD LL55 4SU** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD** |

## 1. CAIS A DDERBYNIWYD

1.1 Mae cais wedi'i atodi i amrywio trwydded eiddo ar gyfer Gwesty Dolbadarn, Stryd Fawr, Llanberis, Gwynedd LL55 4SU. Mae'r ymgeisydd, Grant Kangley, yn ceisio amrywio ei drwydded eiddo i gynnwys gwerthu alcohol o'r ardd tu allan wrth ymyl y gwesty ac wedi'i wahanu gan gyffordd mynediad.

1.2 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon bod tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi'i gyflwyno'n unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol, a'i fod felly yn ddilys.

Gweler y tabl isod am fanylion oriau arfaethedig y gweithgareddau trwyddedig o'r **ardd tu allan** o Ebrill-Hydref**:**

**Oriau Agor:**
**Dydd Sul 12:00 – 22:00**
**Dydd Llun 12:00 – 22:00**
**Dydd Mawrth 12:00 – 22:00**
**Dydd Mercher 12:00 – 22:00**
**Dydd Iau 12:00 – 22:00**
**Dydd Gwener 12:00 – 22:00**
**Dydd Sadwrn 12:00 – 22:00**

**Gweithgareddau Trwyddedig:**

**Cyflenwi Alcohol - Ar yr Eiddo:**
**Dydd Sul 12:00 – 22:00**
**Dydd Llun 12:00 – 22:00**
**Dydd Mawrth 12:00 – 22:00**
**Dydd Mercher 12:00 – 22:00**
**Dydd Iau 12:00 – 22:00**
**Dydd Gwener 12:00 – 22:00**
**Dydd Sadwrn 12:00 – 22:00**

## 2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

- Dal Trwydded Bersonol i sicrhau bod gwerthiant alcohol yn cael ei wneud yn broffesiynol ac yn gweithredu fel goruchwyliwr safle dynodedig.
- Cynnal ardal sy'n addas i'r teulu; gweini bwyd i ymwelwyr a phobl leol sy'n mwynhau bwyd blasus ac nad ydynt yno i yfed yn bennaf.
- Ymuno â'r Pub Watch lleol i annog atal trosedd ac anhrefn, i gadw'r cyhoedd yn ddiogel a sicrhau nad yw'r gweithgareddau yn yr ardal drwyddedig yn amharu ar y gymuned.
- Caiff yr ardal ei goleuo gan oleuadau trydan sy'n gwrthsefyll unrhyw dywydd 24/7, a fydd yn atal trosedd a fandaliaeth yn yr ardal.
- Mae TCC wedi'i osod ar y prif westy a hefyd yn yr ardd.
- Cyfyngu gwerthiant alcohol i'r prynhawniau a gyda'r nosau, gan weini gyda bwyd yn unig ac uchafswm o 6 uned y pen.
- Bydd cael byrddau o uchafswm o 6 o bobl yn golygu na fydd grwpiau mawr o bobl yn ymgynnull.
- Bydd staff yn gorfodi Her 25 wrth weini cwsmeriaid.

**Gweler rhan M o'r cais am y rhestr llawn o fesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu.**

## 3. YMGYNGHORIAD

Yn dilyn ymgynghori ar y cais, derbyniwyd yr ymatebion a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Cyhoedd 1 | Pryderon |
| Cyhoedd 2 | Gwrthwynebiad |
| Cyhoedd 3 | Gwrthwynebiad |
| Cyhoedd 4 | Gwrthwynebiad |
| Adran Gynllunio | Gwrthwynebiad |
| Iechyd Cyhoeddus | Gwrthwynebiad |
| Gwarchod y Cyhoedd | Gwrthwynebiad |
| Heddlu Gogledd Cymru | Amodau |

### 3.1 Sylwadau gan Aelodau'r Cyhoedd:

3.2. Fe wnaeth aelod o'r cyhoedd fynegi pryderon am y nifer o achosion o droseddau anhrefn cyhoeddus oedd angen ymyrraeth yr heddlu yng Ngwesty Dolbadarn ers i'r eiddo gael ei werthu i'r perchnogion presennol. Hefyd codwyd pryderon am yr eiddo sydd wedi'i oleuo'n wael ar hyn o bryd gyda goleuadau bach o amgylch rhannau o'r ardd, gan adael ardaloedd sylweddol heb eu goleuo, pryderon y bydd goleuo gwael yn ei gwneud hi'n anodd adnabod y rhai sy'n gyfrifol am unrhyw droseddau anhrefn cyhoeddus. Nodwyd pryderon ynghylch diffyg darpariaeth teledu cylch cyfyng ac mae'r goleuo gwael yn debygol o gynyddu'r tebygolrwydd y bydd gweithgareddau troseddol ac anhrefn yn digwydd os yw'r eiddo'n cael estyniad i'w trwydded alcohol. **Gweler ynghlwm am y llythyr llawn.**

3.3. Mae aelod o'r cyhoedd sy'n byw'n agos wedi gwrthwynebu i'r cais, gan boeni am y sŵn tan yn hwyr, gan darfu ar gymdogion cyfagos. Mynegwyd pryderon fod yr Heddlu a'r Ambiwlans yn cael eu galw i Westy Dolbadarn yn aml iawn, a gwelwyd nifer o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Codwyd pryderon ynghylch lles y bobl sy'n aros yn y Gwesty sydd â phroblemau dibyniaeth ar alcohol, gan y byddai argaeledd alcohol ar yr eiddo yn cynyddu temtasiwn. Codwyd cwestiwn ynghylch pam mae angen darpariaeth bar yn yr ardd? Eisoes mae 2 far gerllaw, Llyn Padarn a Bwyty Y Gwynedd **Gweler ynghlwm am yr e-bost gwrthwynebu'n llawn.**

3.4. Mae aelod o'r cyhoedd wedi gwrthwynebu gan nodi bod cwsmeriaid y busnes yn troethi mewn eiddo cyfagos, hefyd yn poeni am y preswylwyr yng ngwesty Dolbadarn sydd eisoes â phroblemau cyffuriau ac alcohol, ac y byddai cael gardd drwyddedig yn gwaethygu'r sefyllfa i'r unigolion hyn.
**Gweler ynghlwm am y llythyr gwrthwynebu.**

3.5. Roedd aelod arall o'r cyhoedd yn gwrthwynebu'r cais, gan bryderu y byddai problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cynyddu gan nodi bod trigolion y gwesty eisoes yn defnyddio'r ardd gwrw i yfed alcohol a smygu canabis. Nododd yr ymatebydd bod pryderon y bydd pobl yn ymgynnull yn yr ardd gwrw ymhell ar ôl amser cau gan achosi problemau i'r Gymuned Leol a'r Heddlu.
**Gweler ynghlwm am yr e-bost gwrthwynebu'n llawn.**

### 3.6 Sylwadau gan wasanaeth Cynllunio'r Cyngor

3.7. Cyflwynodd y Swyddog Cynllunio wrthwynebiad i'r cais ar y sail nad oes digon o wybodaeth ynghylch a yw'r uned yn gwbl symudol ai peidio; gan fod yr uned wedi ei lleoli ar y safle am nifer o fisoedd efallai y bydd angen caniatâd cynllunio. Mynegwyd pryderon mewn perthynas â lleoliad arfaethedig yr uned, gan fod y cynllun yn dangos y lleoliad y tu hwnt i gwrtil y dafarn. **Gweler ynghlwm am y gwrthwynebiad llawn.**

**3.8 Sylwadau gan y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

3.9. Mae Iechyd Cyhoeddus wedi cyflwyno sylwadau i wrthwynebu yng nghyswllt yr amcanion trwyddedu amddiffyn plant rhag niwed a diogelwch y cyhoedd.
Mae'r sylwadau'n amlinellu ystadegau mewn perthynas ag yfed niweidiol yng Ngwynedd; a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwerthu alcohol yn agos i'r eiddo gan ddarparu llety dros dro i unigolion digartref, gan gynnwys y rhai a gaiff eu rhyddhau o Uned Hergest ym Mangor.
Nodir bod unigolion digartref yn defnyddio alcohol fel mecanwaith ymdopi; a bod gan y boblogaeth ddigartref fwy o achosion o broblemau iechyd na'r boblogaeth gyffredinol, y rhain yn bennaf yw camddefnyddio alcohol a sylweddau a materion iechyd meddwl. Ymhelaethir ymhellach ar y pryderon hyn gyda sylwadau gan yr Arweinydd Clinigol a'r Rheolwr Datblygu Tai â Chefnogaeth (Iechyd Meddwl), BIPBC, yn benodol mewn perthynas â bregusrwydd rhai o'r cleientiaid sy'n cael eu lletya ar hyn o bryd yn y Dolbadarn. Mae'r ymatebydd yn nodi'n benodol, lle mae eiddo trwyddedig wedi cael eu defnyddio fel llety dros dro - y gall arwain at ddirywiad cyflym mewn cyflwr meddyliol gan arwain at fynediad i'r ysbyty.
Nodir bod Rhan M o'r cais yn nodi y bydd 'uchafswm o 6 uned y person' yn cael ei werthu gyda bwyd i unrhyw gwsmer. Mae'r GIG yn diffinio 'goryfed' fel yfed yn drwm dros gyfnod byr. Y diffiniad technegol ar gyfer goryfed yw mwy nag 8 uned o alcohol mewn un sesiwn ar gyfer dynion neu fwy na 6 uned mewn un sesiwn ar gyfer menywod. (Drinkaware 2024)
**Gweler ynghlwm am y gwrthwynebiad llawn.**

**4.0. Gwarchod y Cyhoedd - Rheoli Llygredd**

4.1. Mae swyddog Gwarchod y Cyhoedd - Llygredd yn gwrthwynebu ar sail mesurau annigonol i reoli niwsans cyhoeddus. Mae cwynion wedi dod i law ynglŷn ag arogl coginio, mae'r swyddogion wedi cysylltu â'r ymgeisydd sy'n gyfrifol am y fan symudol ond heb dderbyn unrhyw ymateb. Mae pryderon hefyd wedi'u codi mewn perthynas â darparu toiledau a chyflenwadau dŵr yfed, gan nad yw cyfleusterau Gwesty'r Dolbadarn ar agor i'r cyhoedd. Nodwyd bod angen mwy o wybodaeth am y math o oleuadau o amgylch y safle mawr 24 awr y dydd. Nodir hefyd bod angen cynllun rheoli sŵn i fynd i'r afael ag unrhyw sŵn gan gwsmeriaid. **Gweler ynghlwm am y gwrthwynebiad llawn.**

**4.2. Heddlu Gogledd Cymru**

4.3. Nid yw Heddlu Gogledd Cymru yn gwrthwynebu'r cais, fodd bynnag, maent yn gofyn am newidiadau i'r amodau presennol ar y drwydded gan fod lle i wella, mae rhai amodau wedi dyddio, wedi'u dyblygu yn ôl y gyfraith neu'n anorfodadwy.
Mae Heddlu Gogledd Cymru yn argymell y dylid dileu'r amod ar y drwydded sy'n ymwneud â bod yn aelod o'r "Pub Watch" oddi ar y drwydded bresennol gan fod hwn yn gynllun gwirfoddol ac nid yw'n orfodadwy.
Mae gan Lanberis economi hwyr fywiog yn enwedig yn ystod misoedd yr Haf, gyda Dolbadarn â thrwydded hwyr (03:00) maent yn awgrymu y byddai cynnwys amodau TCC i'r drwydded yn fuddiol ac yn rhwystr i'r person(au) hynny sy'n mynnu ymddwyn mewn modd gwrthgymdeithasol ac achosi problemau. Nododd Heddlu Gogledd Cymru y byddai cynnwys amodau TCC o fudd i gwsmeriaid wrth atal ymddygiad afreolus a thrwy hwyluso'r gwaith o gasglu tystiolaeth ar gyfer yr heddlu pe bai digwyddiad yn y safle, mae hefyd yn arf gwerthfawr i ddiogelu'r busnes a'r staff rhag cyhuddiadau maleisus.
**Gweler isod am yr amodau TCC llawn.**

**4.4. ARGYMHELLIAD**

Argymhellir bod y Pwyllgor hwn yn ystyried yr holl wrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ofalus, cyn gwneud penderfyniad yn seiliedig ar a yw o'r farn y gall yr ymgeisydd gydymffurfio â'r amcanion trwyddedu ai peidio, a Deddf Trwyddedu 2003.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS - BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **6 Medi 2024** |
| **TEITL:** | **CAIS I AMRYWIO TRWYDDED EIDDO – BECWS MELYN, 41B STRYD FAWR, LLANBERIS LL55 4EU** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH AMGYLCHEDD** |

## 1. CAIS A DDERBYNIWYD

1.1 Atodir cais i amrywio trwydded eiddo Becws Melyn, 41 B Stryd Fawr, Llanberis LL55 4EU oddi wrth Sarah Hopwood, perchennog y busnes. Mae Becws Melyn yn gweithredu fel bwyty a bar bychan , gyda lle i eistedd i 20 o bobl. Mae'r ymgeisydd yn nodi fod diodydd yn cael eu gweini gyda bwyd, ac mai gwin sydd yn cael ei weini gan amlaf gyda Tapas. Nodai yr ymgeisydd fod cwsmeriaid yn dueddol i fwyta yn araf , ac fod naws y nosweithiau a gweini bwyd yn hamddenol. Mai o'r farn y byddai estyniad yn yr amser agor yn fanteisiol ; er ei bod yn nodi nad oes unrhyw ddigwyddiadau hwyr yn cael eu cynnal. Mae'r ymgeisydd yn nodi fod y busnes wedi ei drwyddedu ers blwyddyn , ac mae o'r farn fod y busnes wedi ei reoli yn llwyddiannus drwy'r Haf heb unrhyw drafferthion. Ymhellach , nodai bod ei chwsmeriaid yn dueddol o fod yn hyn felly nid oes llawer o werthiant alcohol felly nid oes potensial i sŵn neu ymddygiad afreolus.

1.2 Gofynnir am yr hawl i ymestyn gwerthiant alcohol i gychwyn am 09:00 y bore yn hytrach na 12 , ac ymestyn oriau agor o 22:00 yr hwyr i 00:00 bob nos Iau, Gwener, Sadwrn a nos Sul. Gofynnir hefyd am ymestyn oriau cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio nos Iau, nos Wener Sadwrn a'r Sul hyd at 00:00.

1.3 Fe fu i gyfnod ymgynghorol y cais gael ei ymestyn i'r 13 o Awst oherwydd nad oedd wedi ei hysbysebu yn gywir, ond bellach gellir cadarnhau fod yr Awdurdod Trwyddedu yn hapus fod y cais wedi ei hysbysebu yn unol a gofynion y Deddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.

1.4 Fe dderbyniwyd sylwadau ar y cais ac felly mae wedi ei gyfeirio i wrandawiad o'r Is Bwyllgor hwn am benderfyniad.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig:

| Trwydded Presenol/Current Licence<br>**Oriau Agor / Opening Hours** | Trwydded Arfaethedig/Proposed Licence |
|---|---|
| Dydd Sul/Sunday 08:00 - 22:00<br>Dydd Llun/Monday 08:00 - 22:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 08:00 - 22:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 08:00 - 22:00<br>Dydd Iau/Thursday 08:00 - 22:00<br>Dydd Gwener/Friday 08:00 - 22:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 08:00 - 22:00 | Dydd Sul/Sunday 09:00 - 00:00<br>Dydd Llun/Monday 09:00 - 22:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 09:00 - 22:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 09:00 - 22:00<br>Dydd Iau/Thursday 09:00 - 00:00<br>Dydd Gwener/Friday 09:00 - 00:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 09:00 - 00:00 |
| **Gweithgareddau Trwyddedadwy / Licensable Activites**<br>**Cerddoriaeth wedi ei Recordio/Recorded Music: Dan do :: Indoors**<br>Dydd Sul/Sunday 08:00 - 22:00<br>Dydd Llun/Monday 08:00 - 22:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 08:00 - 22:00 | Cerddoriaeth wedi ei Recordio/Recorded Music: Dan do :: Indoors<br>Dydd Sul/Sunday 09:00 - 00:00<br>Dydd Llun/Monday 09:00 - 22:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 09:00 - 22:00 |

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher/Wednesday 08:00 - 22:00<br>Dydd Iau/Thursday 08:00 - 22:00<br>Dydd Gwener/Friday 08:00 - 22:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 08:00 - 22:00 | Dydd Mercher/Wednesday 09:00 - 22:00<br>Dydd Iau/Thursday 09:00 - 00:00<br>Dydd Gwener/Friday 09:00 - 00:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 09:00 - 00:00 |
| **Cerddoriaeth Fyw/Live Music: Dan do :: Indoors**<br>Dydd Sul/Sunday 08:00 - 22:00<br>Dydd Llun/Monday 08:00 - 22:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 08:00 - 22:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 08:00 - 22:00<br>Dydd Iau/Thursday 08:00 - 22:00<br>Dydd Gwener/Friday 08:00 - 22:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 08:00 - 22:00 | **Cerddoriaeth Fyw/Live Music: Dan do :: Indoors**<br>Dydd Sul/Sunday 09:00 - 00:00<br>Dydd Llun/Monday 09:00 - 22:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 09:00 - 22:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 09:00 - 22:00<br>Dydd Iau/Thursday 09:00 - 00:00<br>Dydd Gwener/Friday 09:00 - 00:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 09:00 - 00:00 |
| **Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar ac oddi ar yr Eiddo :: Both on and off the Premises**<br>Dydd Sul/Sunday 12:00 - 22:00<br>Dydd Llun/Monday 12:00 - 22:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 12:00 - 22:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 12:00 - 22:00<br>Dydd Iau/Thursday 12:00 - 22:00<br>Dydd Gwener/Friday 12:00 - 22:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 12:00 - 22:00 | **Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar ac oddi ar yr Eiddo :: Both on and off the Premises**<br>Dydd Sul/Sunday 09:00 - 00:00<br>Dydd Llun/Monday 09:00 - 22:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 09:00 - 22:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 09:00 - 22:00<br>Dydd Iau/Thursday 09:00 - 00:00<br>Dydd Gwener/Friday 09:00 - 00:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 09:00 - 00:00 |

## 2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo’r amcanion trwyddedu

Mae’r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn atodlen weithredol y cais yn cynnwys y canlynol –

- Mae teledu cylch cyfyng wedi ei osod yn ddiweddar. Bydd teledu cylch cyfyng yn cael ei ddarparu ar gyfer yr ardal fasnachu a thiliau arian parod
- Bydd staff yn derbyn hyfforddiant ar yr amcanion trwyddedu
- Bydd alcohol yn cael ei weini hefo bwyd rhan fwyaf o’r amser
- Bydd y busnes yn ymuno gyda ‘Pubwatch’
- Gofyn i gwsmeriaid adael yn ddistaw
- Ni fwriedir caniatáu gweini dim mwy na 6 uned o alcohol i bob cwsmer
- Hyfforddiant diogelwch tan i staff
- Rheoli sŵn cerddoriaeth os yw ffenestri yn agored
- Dim byrddau gyda mwy na 6 o bobl i annog cadw lefel sŵn i lawr, ac i annog pobl i beidio gor yfed
- Peidio gweini alcohol i bobl sydd wedi meddwi
- Staff yn derbyn hyfforddiant ar gardiau adnabod a peidio gweini i rhai o dan 18
- Gweithredu Polisi Her 25
- Gwagio biniau yn rheolaidd tu mewn a thu allan
- 

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn rhan M y cais a welir yn yr atodiad .

## 3. YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Heddlu Gogledd Cymru | Dim gwrthwynebiad - sylwadau |
| Gwasanaeth Tan | Dim gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd | Gwrthwynebiad |
| Cyngor Cymuned | Gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Cynllunio - rheolaeth datblygu | Sylwadau |
| Gwasanaeth Cynllunio – gorfodaeth | Gwrthwynebiad |
| | |
| 4 o Ymatebion gan aelodau'r cyhoedd | Gwrthwynebu |

**3 Sylwadau ar y cais**

**3.1 Heddlu Gogledd Cymru**

Ni gyflwynwyd gwrthwynebiad oherwydd nad oedd yr oriau arfaethedig yn hwyrach na eiddo trwyddedig eraill yn yr ardal. Serch hynny derbyniwyd sylw fod yr Heddlu wedi derbyn adroddiad o gwyn sŵn cerddoriaeth yn dilyn digwyddiad yn yr eiddo ar y 31/5/24 aeth yn ei flaen tan oriau man y bore; ac aflonyddwch oherwydd fod pobl yn sefyll tu allan i'r eiddo yn yfed.

**3. 2 Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd - Cyngor Gwynedd**

Fe nodir fod defnydd yr eiddo wedi ei drawsnewid yn ddiweddar o fod yn Fecws i Gaffi gyda bar. Yn dilyn derbyn cwynion am aflonyddwch sŵn nododd y swyddog fod cyfarfod wedi bod gyda'r ymgeisydd Sarah Hopwood ar y 7ed o Awst i drafod y cwynion. Noder fod drysau deublyg ar du blaen yr eiddo , sydd yn galluogi capasiti gael ei gynyddu drwy ddefnyddio ardal batio newydd ar flaen yr eiddo.

3.3 Gan fod yr eiddo mewn lleoliad sensitif i sŵn roedd cyfyngiad yn wreiddiol ar ganiatâd Cynllunio i agor y busnes dan 21:00 yn unig . Roedd y cyhoedd wedi amlygu wrth y cyngor nad oedd yr oriau hyn yn cael eu cadw, ac fe gyflwynwyd ceisiadau cynllunio eraill er mwyn ymestyn oriau y busnes. Fe barhawyd i dderbyn cwynion gan y cyhoedd nad oedd y busnes yn cadw at oriau caniatâd Cynllunio. Noder nad oes digon o wybodaeth wedi ei dderbyn gan yr ymgeisydd yn hanesyddol nac yn bresennol ar sut y bwriedir gweithredu i sicrhau fod mesurau rheoli a chamau gweithredu mewn lle i sicrhau fod yr amcanion trwyddedu yn cael eu cyflawni.

3.4 Nodir fod ymgais wedi bod i drafod rheolaeth sŵn gyda'r ymgeisydd yn y cyfarfod a gafwyd ar y 7fed o Awst ; a barn yr ymgeisydd oedd fod y cyfrifoldeb ar y rhai sydd yn cwyno i ddod ati i ofyn i'r sŵn gael ei droi i lawr , ac nad oedd ddim i fyny iddi hi roi mesurau rhagweithiol rheoli sŵn mewn lle . Awgrymodd yr ymgeisydd hefyd fod angen i'r cymdogion gau eu ffenestri os oedd y sŵn yn amharu arnynt .

3.5 Ymhellach i yn ; amlygodd yr ymgeisydd nad oeddent yn dymuno i'r nosweithiau 'mic agored' ( a arweiniodd at gwynion sŵn) gael eu hatal; ac nad oedd yn afresymol iddyn gadw y ffenestri a drysau yr eiddo busnes os oedd y nosweithiau hyn yn rhai braf. Er fod y nosweithiau hyn yn cael eu hysbysebu fel rhai acwstig; nodir gan y swyddog fod meicroffon ac amp yn cael eu defnyddio. Rhaid cydnabod serch hynny fod rhai o'r nosweithiau hyn wedi dod i ben am 10 yr hwyr.

3.6 Nodai’r swyddog fod cwynion wedi eu derbyn ar ôl i barti dathlu 1 flwyddyn o fod mewn busnes fod ar y safle ar y 31/5/24 . Mae’r Heddlu a sawl ymatebydd arall hefyd wedi cyfeirio at y sŵn o’r noson hono. Roedd delweddau a fideos o’r noson wedi ymddangos ar wefan y busnes ac ar wefannau cymdeithasol; ac roedd gwahoddiad i’r cyhoedd ddod i ddathlu y busnes ar y noson wedi ei rannu cyn y digwyddiad . Mae’r swyddog yn cyflwyno cyfres o fideos a delweddau fel tystiolaeth o sŵn cerddoriaeth , miwsig uchel , pobl yn dawnsio, goleuadau disgo, a cwsmeriaid yn yfed shots oddi ar ski tu nol i’r bar, o dan anogaeth y perchennog. Fe ellir gweld yn rhai o’r fideos fod hi’n dywyll tu allan , ac fod y ffenestri yn agored. Fe ysgrifennwyd at yr ymgeisydd yn dilyn y cwynion a dderbyniwyd am y digwyddiad hwn; ond ni chafwyd ymateb nag eglurhad.

3.7 Ymhellach i hyn , mae’r swyddog yn cyflwyno delwedda a fideos sydd wedi derbyn gan bobl sydd wedi cwyno am y sŵn; gyda rhai yn dangos y parti o’r stryd , gyda miwsig uchel er fod y drysau wedi cau; a phobl yn ymgynnull ar y patio o flaen yr eiddo yn yfed.

3.8 Mae’r swyddog hefyd yn darparu manylion o gwynion sŵn o nosweithiau eraill, megis 14/12/23, 23/6/24, 18/7/24 a 19/7/24. Darparir delweddau a fideos fel tystiolaeth o’r sŵn o’r nosweithiau hyn hefyd; ac fe fydd yr holl fideos ar gael i aelodau’r Pwyllgor gael eu gweld.

3.9 Mae’r swyddog yn nodi fod angen i’r ymgeisydd gydnabod fod angen cynllun i reoli sŵn o’r eiddo, ac noder hefyd fod yr oriau arfaethedig ar y cais amrywio trwydded yn mynd tu hwnt i oriau cynllunio diweddaraf yr eiddo. Mae cyfyngder wedi ei osod ar oriau agor ar y caniatâd cynllunio er pwrpas gwarchod mwynderau’r gymdeithas.

3.10 Ymhellach i’r pryderon a nodwyd gan y swyddog Gwarchod y Cyhoedd, noder fod cwyn wedi eu derbyn ers i’r ymatebydd gyflwyno sylwadau. Cadarnheir fod cwyn am sŵn cwsmeriaid yn ymgasglu tu allan i’r eiddo yn hwyr yn y nos ar y 16 o Awst wedi ei dderbyn , ac mae’r cwynydd wedi cyflwyno fideo fel tystiolaeth i gefnogi ei gwyn. Mae’r fideo yn dangos cwsmeriaid yr eiddo yn siarad ac yn yfed o flaen yr eiddo ac ar y stryd , heb unrhyw ymgais i rwystro aflonyddwch hyd at 11 yr hwyr.

**3.11 Cyngor Cymuned**

3.12 Mae clerc Cyngor Llanberis a Nantperis yn nodi fod y Cyngor yn gwrthwynebu y cais oherwydd fod cwynion wedi derbyn am y sŵn yn dilyn un o’r noswethiau a gynhaliwyd . o’r nosweithiau sydd wedi eu cynnal ar yr eiddo. Noder hefyd fod sŵn yn cario wrth agor blaen y caffi.

**3.13 Gwasanaeth Cynllunio - rheolaeth datblygu**

Noder fod hawl Cynllunio diwygiedig yn caniatáu i’r eiddo fod ar agor rhwng 8 y bore ac 23:30, ac fod y cais am amrywiad trwyddedu arfaethedig yn mynd tu hwnt i’r oriau hynny ar 4 noson . Noder hefyd fod y gwasanaeth gorfodaeth cynllunio wedi derbyn cwynion am y sŵn

**3.14 Gwasanaeth Cynllunio - gorfodaeth**

Noder fod y cais am oriau trwyddedig estynedig tu hwnt i’r hyn a ganiateir ar y caniatâd cynllunio ar gyfer yr eiddo.

**3.15 Ymatebion aelodau’r cyhoedd**

**3.16** Fe dderbyniwyd 4 o ymatebion gyda llawer o bryderon wedi eu hamlygu; yn bennaf mewn perthynas a’r amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus ond hefyd o safbwynt atal trosedd ac anrhefn . Yn benodol nodir –

- Siomedigaeth fod enw y busnes yn rhoi camargraff am natur y busnes - ac er fod y caffi yn atyniad positf yn ystod y dydd , fod yr eiddo yn far swnllyd ar adegau yn y nos
- Fod cael gwared o’r ramp anabl ai droi yn ardal batio wedi arwain at bobl yn ymgynull yno i yfed ar rai nosweithiau
- Dau ymatebydd yn nodi fod cymydog wedi gorfod mynd i weld perchennog y busnes yn ystod yr oriau man pan gynhaliwyd parti yno ar y 31 o Fai, ac fod y perchennog yn ymddangos i fod o dan ddylanwad alcohol ac yn nodi nad oedd yn gallu cael pobl i adael
- Cymydog yn nodi fod rhaid iddo gadw ei ffenestri wedi cau rhag sŵn cwsmeriaid a mwg sigaréts i ddod i mewn i’w fflat
- Rhai ymatebwyr yn nodi nad oes ganddynt ffydd yng ngallu’r perchennog y busnes i reoli sŵn ac ymddygiad gwrth gymdeithasol ar yr eiddo, ac fod ei hagwedd yn anghyfrifol ac fod diffyg ystyriaeth yn cael ei ddangos tuag at drigolion
- Nodai un ymatebydd fod gan y Cyngor ddyletswydd cyfreithiol i gymeryd camau i reoli sŵn yn hwyr yn y nos
- Dau ymatebydd yn nodi fod cwffio ac ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi bod tu allan i’r eiddo un noson ac fod Gorchymyn Gwasgaru ( Dispersal Order) wedi cael ei orfodi gan yr Heddlu
- Un ymatebydd yn nodi fod cwsmeriaid yn helpu eu hunain tu nol i’r bar ar un o’r nosweithiau swnllyd.
- Cwsmeriaid yn yfed a smocio ar y patio yn hwyr
- Mae perchennog eiddo cyfagos yn nodi fod Cyfamod yn bodoli ar yr adeilad lle lleolir y busnes; roedd yr adeilad yn arfer fod yn perthyn i’r Eglwys Bresbyteraidd; ac roedd amod ar y cyfamod yn nodi na ddylai caniatáu yfed na gwerthu alcohol yn yr adeilad.
- Ymatebwyr yn nodi fod yr ardal yn sensitif i sŵn gyda pobl oedrannus, babanod a theuluoedd yn byw ger llaw.
- Ymatebwyr yn amlygu fod llawer yn cwyno am y sŵn ar gyfryngau cymdeithasol

## 4 ARGYMHELLIAD

**Yn unol a’r Deddf Drwyddedu 2003, argymhellir fod y Pwyllgor yn ystyried y dystiolaeth o ddiffyg rheolaeth sydd wedi bod ar y r eiddo hyd yn hyn , ac yn GWRTHOD y cais .**